# Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

## Asesiad o'r effaith ar y gymraeg

**1. Ydy'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr* a'r Rhaglen Waith 2017-2021 gysylltiedig?**

1.1 Mae sefydlu y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn amlwg yn gysylltiedig â nodau Strategaeth Cymraeg 2050 o ran gwella'r broses o gynllunio darpariaeth Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16; gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu datblygu ei sgiliau Cymraeg i'r eithaf ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cam addysg a hyfforddiant i'r nesaf; a gwella'r ffyrdd o roi cefnogaeth ganolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

1.2 Mae'r Bil yn amlinellu naw dyletswydd strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflawni swyddogaethau oddi tanynt, yn gynnwys 'Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg'. O dan y ddyletswydd hon rhaid i'r Comisiwn:

- annog pobl i gymryd rhan mewn addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol;
- annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg:
  1. gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a
  2. gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo.

1.3 Bydd y Comisiwn yn ystyried y Gymraeg yn ei holl weithgareddau, gan gynnwys datblygu strategaeth a pholisi, cyflwyno ac ariannu gweithgareddau dysgu, cyllido sefydliadau unigol a gweithgaredd ymchwil. [Mae gan Strategaeth Cymraeg 2050 nod penodol i 'ddatblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.'

1.4 Bydd gan y Comisiwn rôl uniongyrchol a hanfodol wrth helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod hwn. Nod polisi'r Gymraeg yw datblygu system sy'n galluogi dysgu, asesu a dilyniant trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.5 Mater i'r Comisiwn fydd penderfynu sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gan gynnwys sut mae'n ystyried yr angen i gynyddu darpariaeth addysg drydyddol Gymraeg. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau o'r ffordd yr ydym yn rhagweld y bydd y gofyniad hwn yn cael ei weithredu a'i fonitro'n briodol gan y Comisiwn yn cynnwys y canlynol:

- Cynllunio'n strategol i hybu a chynyddu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, annog sefydliadau i gyflawni, datblygu a chynyddu eu haddysg drydyddol cyfrwng Cymraeg trwy gytundebau cyllid a chanlyniadau;
- Annog darparwyr i gynllunio llwybrau cynnydd i siaradwyr Cymraeg barhau â'u haddysg ôl-16 a pharhau i feithrin eu sgiliau Cymraeg a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn creu gweithlu dwyieithog;

- Monitro’r cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a faint sy’n manteisio ar hynny, ac unrhyw bynciau lle na ellir ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- Gwerthuso llwyddiant ymyriadau i hybu a hyrwyddo’r iaith ac addysg cyfrwng Cymraeg;
- Gweithio’n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Genedlaethol i gyflawni’r uchod;
- Adrodd i Weinidogion Cymru ar effaith y gweithgareddau uchod ar y niferoedd sy’n dewis dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.6 Bydd cynyddu’r cyfleoedd i ddysgwyr barhau ag addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ôl-16, boed mewn ysgolion, colegau addysg bellach, prentisiaethau neu addysg uwch yn fodd iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach. Bydd y cynnydd hwn yn nifer yr unigolion sydd â sgiliau Cymraeg ar lefelau amrywiol o fudd i’r cymunedau maen nhw’n byw ynddynt ac yn helpu i greu gweithlu dwyieithog.

**2. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg.**

2.1 Bydd y cynigion yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i barhau i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gymuned, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Gall enghreifftiau gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau sifig a diwylliannol a gynhelir yn y gymuned, cyflawni rôl ddinesig fel bod yn aelod o gyngor cymuned neu lywodraethwr ysgol leol.

2.2 Bydd y Comisiwn yn gorfod cynllunio datblygiad y ddarpariaeth Gymraeg ar draws ei holl weithgareddau a chyfrifoldebau o’r cychwyn cyntaf. Fel rhan greiddiol o’i ddyletswyddau, bydd angen cynllunio’n strategol i hybu a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gadarnhaol, sicrhau bod sefydliadau yn cyflawni a datblygu eu darpariaeth Gymraeg a rhoi cymorth ac arweiniad i sefydliadau – yn ariannol ac ymarferol.

2.3 Dylai’r cynnig arwain at gynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gan gynnwys cynyddu nifer y cyrsiau addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau. Nod y polisi yw cynyddu nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn ehangu’r dewis i ddysgwyr astudio yn yr iaith o’u dewis.

2.4 Bydd y cynigion yn helpu i sicrhau bod nifer yr unigolion â sgiliau iaith Gymraeg yn cynyddu dros amser ac yn gallu derbyn cyfleoedd amrywiol mewn sefydliadau sy’n cyflwyno’r gwasanaethau uchod. Disgwylir i’r Comisiwn ystyried y sectorau sydd â bylchau sgiliau iaith a bod eu swyddogaethau cynllunio yn adlewyrchu hyn.

**3. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu eu cyrchu a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg?**

3.1 Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn ddarostyngedig i Safonau’r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd angen i’r Comisiwn ddangos ei fod yn cydymffurfio â’r safonau yn ei swyddogaethau drwyddi draw.

3.2 Bydd cael un sefydliad (y Comisiwn) yn gyfrifol am holl addysg drydyddol yn fodd i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy strategol, a gwella monitro argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg ac asesu llwyddiant a lefelau cyrhaeddiad y cyrsiau hynny.

3.3 Y Comisiwn fydd y corff sy'n gyfrifol am gomisiynu holl addysg drydyddol, ac ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd yn caniatáu i addysg cyfrwng Cymraeg gael ei gynllunio'n fwy strategol. Bydd gwelliannau mewn monitro argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg ac mewn asesu llwyddiant a lefelau cyrhaeddiad y cyrsiau hynny.

## 4. Sut fyddwch chi'n gwybod bod eich polisi yn llwyddiant?

4.1 Bydd y polisi yn llwyddiant os bydd y niferoedd mewn addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach a phrentisiaethau, yn cynyddu. Hefyd, hoffem ymestyn nifer y cyrsiau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg ac ehangu'r lleoliadau daearyddol hefyd. Mae tudalen 54 yn cynnwys rhai enghreifftiau o sut y byddem yn disgwyl i hyn gael ei weithredu. Y Comisiwn, ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer datblygiadau penodol cyfrwng Cymraeg, fydd yn gyfrifol am addysg drydyddol - a dylai hyn olygu bod gwybodaeth well a chliriach yn cael ei darparu i ddysgwyr a dylai hyn, yn ei dro, wella mynediad.